

CYPE(6)-13-23 - Papur i'w nodi 14

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

24 Ebrill 2023

SeneddPlant@senedd.cymru

Annwyl Jayne,

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023, cytunais i roi adborth i'r Pwyllgor gan bobl ifanc a gafodd y cymorth incwm sylfaenol.

Mae'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol yn dal yn ei ddyddiau cynnar a bydd yn cael ei asesu'n drylwyr gan dîm gwerthuso a benodwyd yn annibynnol, ac felly ni fyddai'n briodol dod i gasgliadau ynghylch y cynllun peilot ar sail tystiolaeth anecdotaidd ar hyn o bryd.

Er hynny, mae adborth cynnar gan y rhai sy'n gadael gofal yn awgrymu eu bod yn defnyddio'r incwm mewn llawer o ffyrdd i gyfoethogi eu bywydau, gan gynnwys buddsoddi mewn gwersi gyrru a dysgu sut i reoli arian trwy arbed.

Mae Voices from Care Cymru wedi dweud bod y bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw sy'n rhan o'r cynllun yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau cadarnhaol mewn bywyd, megis cael mynediad at lety mewn tai preifat yn lle aros ar restr am dai cymdeithasol, cael y gallu i deithio a dysgu gyrru er mwyn pasio eu prawf gyrru. Mae'r cynllun yn grymuso pobl ifanc sy'n gadael gofal i wneud penderfyniadau annibynnol a phenderfyniadau ariannol gwybodus ac i fwynhau cyfleoedd nad oedd ar gael iddynt cyn ymuno â'r cynllun hwn.

Efallai y byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn darllen y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn Ffynnu, sy'n cynnwys eitem am y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol, cyfweiliad â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a chyfweliad ag un o'r bobl ifanc sy'n cael Taliad Incwm Sylfaenol ar hyn o bryd. Mae'r cylchgrawn wedi'i rannu â rhwydweithiau maethu ac aelwydydd sy'n maethu ledled Cymru.

Mae'r cylchgrawn ar gael yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#).

Yn gywir

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.